



Cynllun Eco-deithio

Neuadd y Gwendraeth

Dyddiad: 6 Gorffennaf 2018

Llofnod: Nia Thomas, Rheolwr Systemau Addysg

Llofnodwyd gan: N Thomas

Cynnwys

1. Rhagarweiniad
 - 1.1 Cynlluniau Teithio
 - 1.2 Rhoi Cynllun Teithio ar Waith
 - 1.3 Nod y Cynllun Teithio
 - 1.4 Manteision Cynllun Teithio
2. Y Cyd-destun
 - 2.1 Y math o sefydliad
 - 2.2 Gwybodaeth i ymwelwyr
 - 2.3 Teithio i'r safle
 - 2.4 Y mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd
3. Cymhellion
 - 3.1 Cerdded
 - 3.2 Trafnidiaeth gyhoeddus
 - 3.3 Rhannu ceir
 - 3.4 Hurio coets breifat
4. Gweithredu
 - 4.1 Rolau a chyfrifoldebau
 - 4.2 Sut y bydd y cynllun yn cael ei farchnata
5. Monitro
 - 5.1 Sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur
 - 5.2 Gweithio gyda chynghorau lleol a chyrff eraill

1. Rhagarweiniad

1.1 Cynlluniau Teithio

Cynlluniau Eco-deithio yw'r ffordd a argymhellir gan y Llywodraeth o ehangu dewisiadau teithio, hyrwyddo dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a lleihau teithiau car gan un person yn unig. Mae Cynllun Teithio yn broses ddeinamig, sy'n datblygu ac yn newid dros amser i adlewyrchu anghenion rhanddeiliaid ac ymwelwyr â Neuadd y Gwendraeth. Mae'n rhoi cyfle delfrydol i ni werthuso ac ailystyried arferion teithio presennol, a bydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Teithio ymwelwyr
- Arferion gwaith
- Newidiadau parhaus i'r safle

1.2 Rhoi Cynllun Teithio ar Waith

- Dangos ymrwymiad Neuadd y Gwendraeth i gynlluniau teithio a hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy.
- Gwella cyfleoedd i deithio mewn ffyrdd cynaliadwy, a'u hannog, a lleihau teithiau diangen.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Eco-deithio ymhlith rhanddeiliaid ac ymwelwyr.
- Gwella materion parcio y tu allan i dir Neuadd y Gwendraeth.

1.3 Nod y Cynllun Teithio

Nod cyffredinol Cynllun Eco-deithio Neuadd y Gwendraeth yw ceisio sicrhau, lle bo'n bosibl, bod ein rhanddeiliaid a'n hymwelwyr yn teithio mewn modd sy'n fwy cydnaws â'r amgylchedd na gyrru cerbyd fel unigolyn, gan leihau problemau parcio.

1.4 Manteision Cynllun Teithio

Bydd arbedion ariannol yn gysylltiedig â chostau trafnidiaeth llai i rhanddeiliaid ac ymwelwyr drwy leihau nifer y teithiau mewn car. Bydd gwelliannau hefyd i ansawdd bywyd yr ymwelwyr lleol hynny sy'n dewis cerdded i'r neuadd.

Bydd cymdogion a phentrefwyr ar eu hennill gan y bydd llai o draffig, a fydd yn gwella cysylltiadau cymunedol. Mae'r cynllun yn dangos ein hymrwymiad amgylcheddol i wella ansawdd aer leol a lleihau llygryddion byd-eang, yn ogystal â lleihau ein hól troed carbon.

2. Y Cyd-destun

2.1 Y math o sefydliad

Mae Neuadd y Gwendraeth yn lleoliad amlbwyrpas sy'n denu cwsmeriaid yn bennaf o blith staff, disgyblion a llywodraethwyr ysgolion Sir Gaerfyrddin, y cyhoedd a grwpiau a sefydliadau lleol. Mae'r digwyddiadau'n cynnwys cynadleddau, sesiynau hyfforddiant, cyfarfodydd, ymarferion a pherfformiadau. O ganlyniad, rydym yn disgwyl llif cyson o ymwelwyr gan fod rhai digwyddiadau'n denu nifer uchel yn ogystal â'r rheiny sy'n ymwneud â pharatoi'r digwyddiadau.


Mae Neuadd y Gwendraeth wedi ymrwymo i wneud gwelliannau amgylcheddol ac i leihau'r effaith yr ydym yn ei chael ar yr amgylchedd a'r preswylwyr lleol. Mae ein Cynllun Teithio yn cyd-fynd â'n dyhead i hyrwyddo cynaliadwyedd a mynediad hawdd i'n hymwelwyr.

2.2 Gwybodaeth i ymwelwyr

Aelodau'r cyhoedd yw pob un o'n hymwelwyr a'n cwsmeriaid, sy'n dod o'r ardal leol a thu hwnt. Mae'n anodd gwybod sut y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn teithio i'r safle, gan ddibynnu ar y digwyddiad - cynadleddau, sesiynau hyfforddiant, cyfarfodydd, ymarferion a pherfformiadau ac ati. Fodd bynnag, rydym yn cymryd na fydd y rhan fwyaf ohonynt yn cerdded, felly ein nod yw lleihau nifer y teithiau mewn car gan annog dulliau teithio eraill. Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn cyflogi staff yn uniongyrchol oherwydd natur ysbeidiol y busnes. Byddwn yn annog ymwelwyr i deithio gyda'i gilydd ac i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus lle bo'n briodol.

2.3 Teithio i'r safle

Mae Neuadd y Gwendraeth wedi'i lleoli ym mhentref Dre-fach, oddeutu 11 milltir o Gaerfyrddin a 10 milltir o Lanelli;



a) Gwybodaeth a Hyrwyddo

Rhoddir gwybodaeth am barcio a dewisiadau teithio eraill i ymwelwyr a chontractwyr drwy neges e-bost, ar y ffurflen archebu a chan y grwpiau a'r sefydliadau sy'n cynnal y digwyddiadau.

b) Mynediad i Gerddwyr

Mae modd cyrraedd Neuadd y Gwendraeth o bentref Dre-fach. Mae'r mynediad wedi'i nodi'n glir o'r safle bws y tu allan i'r neuadd. Yn ogystal, mae modd cyrraedd y neuadd o safle'r hen ysgol (Ysgol y Gwendraeth). Fodd bynnag, nid oes arwyddion ar gyfer y mynediad ac mae diffyg gwelededd yn y nos. O ganlyniad, cynghorir ymwelwyr i fod yn ofalus.

c) Cysylltiadau bysiau

Mae Neuadd y Gwendraeth yn daith bum munud ar droed o sgwâr Dre-fach lle mae nifer o lwybrau bysiau ar gael. Mae'r ddolen gyswllt isod yn dangos yr amserlenni ar gyfer y safle bws hwn - Llwybrau 129, 164 ac 166.

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/gwasanaethau-bws/amserlenni-bysiau>

d) Cysylltiadau rheilffyrdd

Gellir cyrraedd Neuadd y Gwendraeth mewn 20 munud mewn tacsï o Orsaf Drenau Caerfyrddin ac mewn oddeutu 30 munud o Orsaf Drenau Llanelli mewn car.

e) Rhannu Teithiau/Rhannu Ceir

Anogir ymwelwyr a staff i rannu ceir ar bob adeg.

f) Hurio coetsis

Gall ymwelwyr gyrraedd mewn coets breifat gan leihau nifer y ceir. Mae gennym safle bws mawr y tu blaen i'r neuadd er mwyn i goetsis ollwng a chasglu ymwelwyr.

g) Gyrru

Mae lleoedd parcio'n gyfyngedig ar y safle gydag 16 lle y tu cefn i'r neuadd (gan gynnwys 2 lle i bobl anabl). Gall ymwelwyr hefyd barcio ar hyd y ffordd fynediad ac yn y safle bws mawr y tu blaen i'r neuadd. Mae hyn yn ychwanegu 30 lle.

Mae ardal fawr ar gael ar gyfer parcio ar safle'r hen ysgol gyferbyn â'r neuadd. Fodd bynnag, nid oes arwyddion ar gyfer y mynediad ac mae diffyg gwelededd yn y nos. O ganlyniad, cynghorir ymwelwyr i fod yn ofalus.

2.4 Y mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd

Bydd gwesteion, ymwelwyr a chontractwyr sy'n dod i Neuadd y Gwendraeth yn cael gwybod am y dulliau trafndiaeth eraill heblaw ceir megis bysiau, trenau neu gerdded. Bydd amserlenni bysiau a threnau ar gael ar gais. Byddwn hefyd yn annog ymwelwyr i rannu ceir er mwyn lleihau nifer y cerbydau sy'n parcio ar y safle.

3. Cymhellion

3.1 Cerdded

Cerdded yw'r dull teithio rhataf a mwyaf iach. Yn anffodus, heblaw am y preswylwyr lleol sy'n dod i berfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus yn y neuadd, mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn teithio ar draws y Sir. Mae preswylwyr lleol eisoes yn credu bod cerdded yn ddewis hyfyw fel nad oes rhaid iddynt ddod o hyd i le parcio addas.

3.2 Defnyddio Trafnidiaeth Gyhoeddus

Er nad yw'r gwasanaethau bysiau lleol mor gynhwysfawr ag yr oeddent o'r blaen, mae modd cyrraedd Neuadd y Gwendraeth ar fws. Mae'r ddolen gyswllt isod yn dangos yr amserlenni ar gyfer pentref Dre-fach - Llwybrau 129, 164 ac 166. Mae teithio ar fysiau'n gost effeithiol i ymwelwyr ac mae'n osgoi'r drafferth o ddod o hyd i le parcio addas.

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/gwasanaethau-bws/amserlenni-bysiau>

Mae'n debyg bod teithio ar drên i drefi Caerfyrddin neu Lanelli yn ogystal â theithio ar fws i'r neuadd yn anghyfleus. Fodd bynnag byddai'n ddewis hyfyw i ymwelwyr sy'n teithio o'r tu allan i'r sir ar gyfer cynadleddau. Unwaith eto, mae hyn yn gost effeithiol ac mae'n osgoi'r drafferth o ddod o hyd i le parcio addas.

3.3 Rhannu Ceir a Lleihau Teithiau mewn Car

Ar gyfer ymwelwyr â Neuadd y Gwendraeth sy'n dod yn rheolaidd neu sy'n dod unwaith yn unig, gallai rhannu ceir fod yn ddewis arall yn hytrach na theithiau car gan un person yn unig. Mae ymwelwyr rheolaidd e.e. penaethiaid yn cael eu hannog i rannu ceir. Mae pob unigolyn a sefydliad sy'n defnyddio'r neuadd yn cael dogfennaeth sy'n pwysleisio'r manteision o rannu ceir.

3.4 Hurio Coets Breifat

Rhoddir gwybod i bob unigolyn a sefydliad sy'n defnyddio Neuadd y Gwendraeth y gallai defnyddio cwmnïau hurio coetsis lleol gynorthwyo i gludo nifer fawr o bobl o'r neuadd ac yn ôl. Gellid gwneud hyn o'r ddwy orsaf drenau neu o leoliadau eraill ac ni fyddai angen i bob ymwelydd ddefnyddio car.

4. Gweithredu

4.1 Rolau a chyfrifoldebau

Fel y person sy'n gyfrifol am safle Neuadd y Gwendraeth, mae Nia Thomas wedi ymrwymo i'r Cynllun Eco-deithio a lle bo'n bosibl, i leihau nifer y teithiau mewn car i'r safle. Byddwn yn rhagweithiol yn ein gwaith gyda'r holl randdeiliaid, ymwelwyr a chontractwyr i annog cerdded a rhannu ceir, defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, a hurio coetsis, er mwyn cyflawni'r amcanion hynny. Byddwn yn cysylltu â nhw i drafod yr opsiynau ac yn amlygu pwysigrwydd defnyddio dulliau teithio eraill. Gellir cysylltu â Nia drwy ffonio 07814 716380.

4.2 Sut y bydd y cynllun yn cael ei farchnata

Byddwn yn cyhoeddi'r cynllun ar-lein ac yn tynnu sylw at ddulliau teithio eraill ar ein deunydd marchnata cyffredinol a'n dogfennaeth archebu. Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid, ymwelwyr a chontractwyr i sicrhau eu bod wedi gweld y cynllun a'u bod yn ystyried ei gynnwys.

Bydd llwybrau, cyngor, cysylltiadau ac arweiniad ynghylch parcio yn cael eu nodi'n glir, a bydd Nia Thomas a'i staff yn barod i ateb unrhyw ymholiadau neu gwestiynau am y ffordd orau o deithio i Neuadd y Gwendraeth ac yn ôl. Nid ydym am i'r safle orlenwi oherwydd teithiau diangen mewn ceir felly rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i awgrymu opsiynau eraill er ein budd ni ac er budd yr amgylchedd.

Byddwn yn dosbarthu copïau o'r Cynllun Eco-deithio i ddefnyddwyr rheolaidd y neuadd ac yn rhannu arferion da i leihau teithiau diangen.

5. Monitro

5.1 Sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur

Byddwn yn monitro nifer y cerbydau sy'n cael eu defnyddio mewn digwyddiadau mwy ac yn asesu'r gostyngiad yn nifer y ceir o ganlyniad i weithredu'r Cynllun Eco-deithio.

Bydd arferion teithio'n cael eu cofnodi, a bydd ffyrdd o leihau'r defnydd o geir ymhellach yn cael eu harchwilio. Yn ogystal, bydd defnydd o safle'r hen ysgol, llwybrau mynediad o'r ysgol, goleuadau a materion iechyd a diogelwch yn cael eu monitro'n agos gyda golwg ar ddefnyddio'r ardal i barcio'n rheolaidd.

5.2 Gweithio gyda sefydliadau a phreswylwyr lleol

Ein nod yw gweithio gyda'r holl sefydliadau lleol i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi o ganlyniad i'r Cynllun Eco-deithio. Byddwn yn gofyn am adborth yn rheolaidd gan breswylwyr lleol ynghylch unrhyw bryderon parhaus o ran parcio y tu allan i ffiniau'r neuadd, ac yn gweithredu mesurau ychwanegol i geisio datrys y sefyllfa.